**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Gorffennaf 28ain 2014 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Rob Parkes, Raymond Bartley, Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin Hughes (cyrhaeddodd 7.15pm), Colin L Hughes, Brian Davies, Mark Young, Shereen Lunt, and Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Roy Tickle, Gaynor Wood; Colin Hughes (hwyr)

**Arsylwi:** Pymtheg aelod o'r cyhoedd

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**68. Cyflwyniad ar Hwb Dinbych.** Dywedodd clerc y dref, oherwydd problem gyda'r cyflwyniad cytunwyd i ohirio'r cyflwyniad tan gyfarfod o'r cyngor yn y dyfodol.

**69.** Cyflwynodd Mr Tom Williams, ar ran Gymdeithas Gideon, gopi o'r Beibl a'r Testament Newydd i'r Maer, y Cynghorydd Rob Parkes. Rhoddodd Mr Williams amlinell fer o waith y Gymdeithas yn lleol a byd eang. Diolchodd y Maer i Mr Williams am y cyflwyniad.

**70. Materion Brys**: Gofynnodd clerc y dref am i fater ynglŷn â'r cod ymddygiad gael ei drin o dan ran dau ar derfyn y cyfarfod - caniatawyd hyn

**71 Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Geraint Williams – unrhyw faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(2) Cyng Raymond Bartley - unrhyw faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(3) Cyng Colin L Hughes – eitem agenda 8(1)(3) – cynllunion – cyn safle Autoworld, Ffordd y Ffair.

**72. Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Fehefin 23ain 2014, a Chofnodion y Cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar Orffennaf 14eg 2014.**

**73. Materion yn codi:** 14.7.14. (1) Cofnod 63(1) Coffau'r Rhyfel Byd Cyntaf - diolchodd y Cyng Bartley i'r Rheithor a chlerc y dref am drefnu'r gwasanaeth teilwng a hefyd diolchodd i'r tair ysgol am gymryd rhan yn y gwasanaeth.
(2) Cofnod 64 CCTC - Dywedodd y Maer ei fod wedi ysgrifennu at yr ysgrifennydd ynglŷn ag aelodaeth anrhydeddus a'i fod wedi derbyn ateb yn cydnabod yr ohebiaeth.
(3) Cofnod 67(8) Cylchfan Pwll y Grawys - cyfeiriodd y cadeirydd at yr erthygl yn y Free Press ac eglurodd nad y cyngor tref oedd perchennog y gylchfan. Ychwanegodd clerc y dref mae CSDd a adeiladodd a hefyd eu bod yn ei chynnal a'i chadw. Roedd hen Groes y Dref ynghanol y gylchfan ym mherchnogaeth y cyngor tref.
(4) Cofnod 66 CCTV – dywedodd y Cyng Geraint Williams y bydd adroddiad ar CCTV yn Sir Ddinbych yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwiliad ym mis Hydref.

**74. Adroddiad y Maer.** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer. Ymhelaethodd y Maer ar un neu ddau o'r materion oedd yn gynwysedig yn yr adroddiad

**75. Llythyrau a Hysbysiadau:** Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth.

**76. Cynllunio**: Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) Cyn safle Autoworld, Ffordd y Ffair
(2) Tir yn 25 Y Green.

Ynglŷn â'r cais a dderbyniwyd ar gyfer Cae Gwyn, Ffordd yr Wyddgrug (gohiriwyd o Orffennaf 14eg) dywedodd clerc y dref nad oedd wedi derbyn ateb i'r ddau e-bost a yrrwyd i adran cynllunio CSDd. Cytunwyd i ohirio'r mater ymhellach ac i ofyn am fwy o amser i ystyried y cais ac i dderbyn yr wybodaeth a ofynnwyd amdano.

Ynglŷn â'r cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer tir rhwng Eglwys Dewi Sant, Lôn Dewi Sant a Ffordd y Brwcws (gohiriwyd o 14.7.14) nodwyd unwaith eto derbyn 16 o eitemau o ohebiaeth (85 o dudalennu) yn gwrthwynebu'r cais. Mynychwyd y cyfarfod gan bymtheg o aelodau'r cyhoedd i arsylwi y cais arbennig yma. Cafwyd ymweliad safle ar Orffennaf 15fed a bu i is bwyllgor cynllunio'r cyngor gyfarfod ar ôl yr ymweliad a pharatowyd adroddiad ar gyfer y cyngor. Dosbarthwyd copïau i'r aelodau. Darllenodd y cadeirydd gynnwys yr adroddiad. Cafwyd trafodaeth pan fynegwyd sylwadau o blaid ac yn erbyn y cais. Daeth y drafodaeth i ben trwy gynnig fod argymhellion oedd yn gynwysedig yn adroddiad yr is bwyllgor yn cael eu derbyn a bod y cyngor yn gwrthwynebu'r cais. Cynigwyd gwelliant fod y cais yn cael ei dderbyn. Gofynnwyd am bleidlais gofnodedig. Cafwyd pleidlais ar y gwelliant gyda'r Cyng Medwyn Williams a Geraint Williams yn pleidleisio o blaid. Cafwyd pleidlais ar y cynnig gwreiddiol gyda'r Cyng Rob Parkes, Colin L Hughes, Mark Young, Shereen Lunt, Gaynor Morgan Rees a Brian Davies yn pleidleisio o blaid y cynnig gyda'r Cyng Raymond Bartley yn atal ei bleidlais. Felly, **Penderfynwyd fod y cyngor yn gwrthwynebu'r cais a hynny yn seiliedig ar argymhellion adroddiad yr is bwyllgor.**

2. Materion Cynllunio eraill. (1) Nodwyd y llythyr a dderbyniwyd oddi Mrs Doris Roberts ynglŷn â'r llwybr beicio. (2) Nodwyd y chwe tystysgrif cynllunio a dderbyniwyd

**77. Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor** Cymorthdaliadau: Ystyriwyd cofnodion cyfarfod diweddar. Ystyriwyd a chymeradwywyd pob un cais oedd yn gynwysedig o fewn y cofnodion fel a ganlyn:

(1) Menter iaith Sir Ddinbych - £2,950 (A.145)(rhif siec.005428)
(2) Flintshire Optec Exchange – gwrthodwyd y cais oherwydd termau y cais tu allan i awdurdod y cyngor tref.

Cymeradwywyd yr argymhelliad ynglŷn â pholisi cymorthdaliadau i sicrhau fod digon o arian ar gael i ariannu pob cais am gymorthdaliadau yn y flwyddyn ariannol bresennol fel a ganlyn:

(1) Ceisiadau oddi wrth elusennau cenedlaethol - i barhau a'r polisi o £100 y cais ond i gadw rhagorfraint os byddai sefyllfa leol benodol neu argyfwng.
(2) Ceisiadau oddi wrth elusennau lleol - i barhau a'r polisi fod pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant.
(3) O gymryd i ystyriaeth nifer y ceisiadau a dderbynnir gan y cyngor a'r ariannu oedd ar gael o fewn y gyllideb bresennol, i barhau a'r polisi o osod uchafswm o £3,000 ar gyfer pob cais. Pob cais i gael ei archwilio'n ofalus ac os bydd angen i ofyn am fwy o wybodaeth.
(4) Fod rhaid i fantolen neu gyfrifon gael ei chynnwys gyda phob cais ac os nad oedd hyn ar gael fod angen eglurhad pam nad oedd hyn yn bod.

**78. Adroddiadau**: (1) Banc Bwyd Dinbych. Cyfeiriodd clerc y dref at gofnodion cyfarfod diweddar o Fanc Bwyd Dyffryn Clwyd. Nodwyd y cofnodion.
(2) Pwyllgor Cyswllt Chwarel Dinbych. Cafwyd adroddiad llafar gan y Cyng Colin Hughes ar ymweliad diweddar y pwyllgor a'r chwarel. Yn bresennol oedd cynrychiolwyr CSDd, yr Heddlu, Hanson a'r Cyngor Tref. Derbyniwyd sicrwydd fod pob rhagofal yn cael ei gymryd. Eglurodd y Cyng Hughes amgylchedd a thirlun ardal y chwarel. Roedd y Cyng Hughes yn galonogol fod Hanson yn gwneud cryn ymdrechion i ddiogelu safle'r chwarel.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**79 Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Raymond Bartley (1) Safle Kwik Save wedi ei werthu; (2) Ymddiriedolwyr Lôn Ganol yn cyfarfod ar Orffennaf 29ain; (3) Trafodaethau'r gyllideb yn mynd ymlaen ar frys.

2. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Geraint Williams: (1) Materion gyda goleuadau stryd yn Stâd Llewelyn a Bryn Garth; (2) Nifer o dai'r cyngor wedi methu'r profion dŵr – canlyniadau'r ysgolion heb ei derbyn hyd yn hyn.

3. Nid oedd gan y Cyng Colin Hughes unrhyw beth i'w adrodd.

**80. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

(1) Pen y Bryn Joinery - gosod plac coffau yn Eglwys y Santes Fair - dywedodd clerc y dref fod derbynneb am £179.40 wedi ei dderbyn ond derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth Pen y Bryn Joinery yn dweud y tynnwyd yn ôl yr anfoneb a bod y gwaith a wnaed yn rhad ac am ddim fel eu cyfraniad i'r digwyddiad.

| | | | |
|---|---|---|---|
| (2) | CCTCGC – siec newydd yn lle siec rhif 005341 (a gollwyd) (rhif siec. 005423) | - | £800.00 |
| (3) | Rogers Jones Co - prisid arteffactau a regalia'r cyngor (rhif siec 005424) | - | £192.00 |
| (4) | Zen Internet – darpariaeth ADSL (Awst) (rhif siec 005425) | - | £18.37 |
| (4) | Paul Liversidge – clirio llwybrau (Gorffennaf) (rhif siec 005426) | - | £165.00 |
| (5) | Clerc y Dref – costau teithio (Llanelwy) (rhif siec 005427) | - | £5.53 |
| (6) | D Bryn Jones - gwasanaeth cyfieithu (rhif siec 005429) | - | £400.00 |

Cyfanswm taliadau: £1,580.90

**Unrhyw faterion ariannol eraill:** (1) Taliadau cyfrifon rhwng Gorffennaf 29ain a Medi 8fed 2014. Cytunwyd rhoddi caniatâd i glerc y dref dalu unrhyw gyfrifon a dderbynnir yn ystod y cyfnod yma ac i baratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod Medi 8fed
(2) Adroddiad Prisiad. Cyfeiriodd clerc y dref at yr adroddiad a dderbyniwyd oddi wrth Rogers Jones Co. Cytunwyd i gysylltu â Chwmni Thomas Fattorini i drafod y posibiliadau o gael paratoi cynlluniau manwl o'r Gwpan Myddleton.

**71. Gardd Goffa Dr Evan Pierce.** Dywedodd clerc y dref nad oedd giât yr ardd yn cael ei chloi dros nos. Gyrrwyd nifer o lythyrau at Reolwr Cae Glas yn cyfeirio at y cytundeb a gadarnhawyd rhai blynyddoedd yn ôl. Yn anffodus ni dderbyniwyd ymateb. Awgrymodd y Cyng Bartley i gysylltu â'r Gelli i ofyn am eu cymorth i gloi ac agor y giât. Yn y cyfamser gwirfoddololodd y Cyng Colin Hughes i gloi ac agor y giât.

**72. Cyfarfod Argyfwng Awst.** Yn ôl arferiad arferol y cyngor cytunwyd fod y Maer, Dirprwy Faer, Cadeirydd Cynllunio a chlerc y dref yn cyfarfod pan fo angen yn ystod Awst i ymdrin ag unrhyw fusnes oedd angen sylw.

**73. Sedd Wag y Cyngor.** Dywedodd clerc y dref fod CSDd heb dderbyn cais i lenwi'r sedd wag. Roedd angen nawr i'r cyngor lenwi'r sedd wag drwy gyfethol. Eglurodd clerc y dref y drefn. Cytunwyd i hysbysebu'r sedd wag drwy hysbysiad cyhoeddus gyda dyddiad cau Awst 20fed 2014 a bod yr ymgeiswyr yn datgan diddordeb ac yn cyflwyno resume ac / neu CV i'r cyngor. Cytunwyd hefyd i ofyn i'r wasg leol gyhoeddi eitem ar y sedd wag ac i ddefnyddio'r rhwydwaith cymdeithasol i hysbysebu'r sedd wag.

Yn y man yma symudodd y cyfarfod i Ran 2

Ar ôl gwblhau'r busnes o dan Ran 2 ac am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.49 o'r gloch.

Arwyddwyd:........................................................ (cadeirydd)

Dyddiad:.........................